Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Prentisiaethau yn Rheoli Adnoddau Dynol

Rhif y Fframwaith: FR04154 **Rhifyn:** 5 **Dyddiad**: 19/02/2018

Cytunwyd ar gynnwys y Fframwaith hwn gan Instructus ac maent wedi'i gyhoeddi.

TROSOLWG:

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno darpariaeth hyfforddiant Lefel 5 o fewn y galwedigaethau Busnes a Rheoli. Os cwblheir y ddarpariaeth, caiff cymhwyster wedi'i ddynodi/reoleiddio ei ddyfarnu.

Mae'r Brentisiaeth hon yn addas ar gyfer amryw o rolau Adnoddau Dynol, yn cynnwys Swyddog Gweithredol AD, Swyddog Ad, Rheolwr AD Cynorthwyol, a Chynghorydd AD Cynorthwyol.

DEILLIANNAU GORFODOL

Bydd y corff dyfarnu priodol yn gwirio sut yr asesir cyflawni'r cymwysterau hyn. Rhaid i unigolion gwblhau:

- Naill ai gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth neu gymhwyster sy'n cyfuno'r ddwy elfen o un o'r llwybrau canlynol
- Sgiliau Hanfodol a'r Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth a nodir isod

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 5:
Llwybr 1: Rheoli Adnoddau Dynol

Sgiliau Hanfodol Cymru:
Lefel Cymhwyso Rhif 2 , Lefel Gyfathrebu 2, Lefel TGCh 2

Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a'r broses sefydlu sylfaenol sy'n ymwneud â Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth yn y gweithle yn ddewisol.

RHAGOR O WYBODAETH

I weld cynnwys y Fframwaith hwn a'r fanyleb lawn, cysylltwch: Instructus